CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

| GŴYS A RHAGLEN | SUMMONS AND AGENDA |
| --- | --- |
| ar gyfer | for a |
| CYFARFOD O GYNGOR SIR YNYS MÔN | MEETING OF THE ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL |
| a gynhelir yn | to be held at the |
| SIAMBR Y CYNGOR SWYDDFA'R SIR LLANGEFNI | COUNCIL CHAMBER COUNCIL OFFICES LLANGEFNI |
| DYDD MAWRTH 12 RHAGFYR 2017 | TUESDAY 12 DECEMBER 2017 |
| am 2.00 o'r gloch yp | at 2.00 pm |

**R H A G L E N**

1. **COFNODION**

Cyflwyno, i'w cadarnhau, cofnodion drafft y Cyngor Sir a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol :-

- 26 Medi, 2017
- 30 Hydref, 2017 (Arbennig)

2. **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

3. **DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR NEU'R PRIF WEITHREDWR**

4. **CWESTIYNAU A DDERBYNIWYD YN UNOL Â RHEOL 4.1.12.4 O'R CYFANSODDIAD**

- Gofynnwyd y cwestiwn isod y cafwyd rhybudd ohono gan y Cynghorydd Peter Rogers i Arweinydd y Cyngor :-

  *"Fel ni gyd, byddwch yn gwbl ymwybodol o'r dicter a'r pryder sy'n cael eu mynegi gan drethdalwyr Ynys Môn yn dilyn eich penderfyniad i gynyddu nifer yr Aelodau ar Bwyllgor Gwaith yr Awdurdod hwn i 9 aelod.*

  *Yn y cyfnod llym sydd ohoni, sut yn y byd fedrwch chi gyfiawnhau'r ffasiwn wariant?"*

- Gofynnwyd y cwestiwn isod y cafwyd rhybudd ohono gan y Cynghorwyr A M Jones a Bryan Owen i Arweinydd y Cyngor :-

  *"Yn dilyn y penderfyniad i roi'r gorau i'r broses dendro am y cytundeb gofal cartref, beth a faint ydy'r costau wedi bod i'r Cyngor?"*

5. **RHYBUDD O GYNNIG YN UNOL Â RHEOL 4.1.13.1 O'R CYFANSODDIAD**

I gyflwyno Rhybudd o Gynnig gan :-

- **Y Cynghorydd Shaun J Redmond**

  *"Yn dilyn y cyhoeddiad diweddar i symud i bolisi o amgylchedd gweithio Cymraeg iaith gyntaf a'r baich ariannol cysylltiedig â'r gwahaniaethu sydd ynghlwm â hynny, rwy'n cynnig, gan nad oes gan y Cyngor unrhyw fandad a gan nad ydynt wedi ceisio consensws yr etholaeth i newid y polisi o fod yn Bolisi o Ddwyieithrwydd, bod Aelodau yn :-*

  *(a) Cadw'r amgylchedd gwaith a'r polisi dwyieithog tan y bydd mandad a chonsensws yn cael ei gytuno drwy refferendwm ymysg yr etholaeth.*

*(b) Derbyn y polisi o gyflogi'r ymgeiswyr mwyaf cymwys ar gyfer pob swydd o fewn y Cyngor beth bynnag eu hiaith gyntaf neu ddewis iaith o Gymraeg neu Saesneg.*
*(c) Derbyn y polisi o gyflogi pobl ifanc a thrigolion eraill ym Môn y mae eu hiaith gyntaf neu ddewis iaith yn Gymraeg neu Saesneg."*

- **Y Cynghorydd Aled Morris Jones**

  *"Rwy'n gwneud cais i'r Cyngor Sir chwifio baner y Deyrnas Unedig y tu allan i swyddfeydd y Cyngor Sir yn Llangefni yn ddyddiol, ac nid ar ddyddiau penodol yn unig, ochr yn ochr â'r Ddraig Goch a baner y Cyngor."*

- **Y Cynghorydd Bryan Owen**

  *"Yn dilyn effaith trychinebus ar unigolion o ganlyniad i'r llifogydd diweddar ar yr Ynys, a wnaiff y Cyngor gytuno i sefydlu cronfa gymorth argyfwng er mwyn cynorthwyo'r rhai hynny sydd wedi eu heffeithio a blaenoriaethu gwelliannau i amddiffynfeydd llifogydd fel rhan o gyllideb 2018/19.*

**6. <u>CYFLWYNO DEISEBAU</u>**

Derbyn unrhyw ddeiseb yn unol â Pharagraff 4.1.11 o'r Cyfansoddiad.

**7. <u>PENODI AELOD LLEYG O'R PWYLLGOR SAFONAU</u>**

Cyflwyno adroddiad gan Gadeirydd Panel Dethol y Pwyllgor Safonau.

**8. <u>PENODI DAU GYNGHORYDD CYMUNED I WASANAETHU AR Y PWYLLGOR SAFONAU</u>**

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro.

**9. <u>CYNLLUN GOSTYNGIADAU'R DRETH CYNGOR 2018/19</u>**

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Adran 151 fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 27 Tachwedd, 2017.

**10. <u>TREFNIADAU DIRPRWYO I'R CYNGOR FEDRU CYMRYD RHAN YN YR ARCHWILIAD O GEISIADAU AR GYFER PROSIECTAU WYLFA NEWYDD A CHYSYLLTIAD GOGLEDD CYMRU DAN DDEDDF CYNLLUNIO 2008</u>**

Cyflwyno adroddiad ar y cyd gan y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Gwella Gwasanaethau a Chymunedau) a'r Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 27 Tachwedd, 2017.

**11. <u>ADOLYGIAD O ETHOLAETHAU SENEDDOL 2018</u>**

Y Prif Weithredwr i adrodd ar yr uchod.